**YMCHWILIAD CYHOEDDUS COVID-19 Y DEYRNAS UNEDIG**
**O FLAEN Y FARWNES HEATHER HALLETT**
**YN Y MATER: YMCHWILIAD CYHOEDDUS I ARCHWILIO'R PANDEMIG COVID-19 YN Y DU**

---

# DATGANIAD AR RAN GRŴP 'TEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH COVID-19 ER MWYN CYFIAWNDER CYMRU' AR GYFER Y TRYDYDD WRANDAWIAD RHAGARWEINIOL YN MODIWL 1 AR 25 EBRILL 2023

---

## Ceisiadau Rheol 9 a Datgeliad

1. Mae grŵp Teuluoedd Mewn Profedigaeth Covid-19 Er Mwyn Cyfiawnder Cymru ('CBFJ Cymru) yn bryderus iawn am yr oedi parhaus i ddatgelu datganiadau Rheol 9 a thystiolaeth ddogfennol Modiwl 1 ('M1'). Mae'r oedi parhaus mewn perygl o rwystro gallu 'r Cyfranogwyr Craidd anwladwriaethol i baratoi'n ddigonol ar gyfer M1. Os bydd yr oedi yn parhau, mae perygl y bydd uniondeb yr Ymchwiliad yma yn cael ei danseilio. Yr hyn sydd mwyaf pryderus yw'r faith ei fod yn ymddangos mai un o'r prif resymau dros yr oedi yw methiant y Cyfranogwyr Craidd/tystion sydd yn gysylltiedig â'r 'wladwriaeth' i ymateb yn ddigon manwl i geisiadau Rheol 9.[1] Mae CBFJ Cymru yn awyddus i ddeall paham mae'r rhai sydd yw gael eu craffu yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus hwn yn cymryd cyhyd i ddarparu datgeliad llawn. Mae CBFJ Cymru yn awyddus i wybod a yw unrhyw un o'r cyrff cyhoeddus neu dystion yng Nghymru, sydd am gael eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu craffu yn yr Ymchwiliad hwn, wedi darparu ymatebion cychwynnol anghyflawn i geisiadau Rheol 9 yr Ymchwiliad. Er mwyn sicrhau tryloywder, mae CBFJ Cymru yn ceisio: i) bod yr Ymchwiliad yn darparu diweddariad yn nodi ble mae hyn wedi digwydd mewn perthynas â thystion Cymreig, a ii) a gafodd y terfyn amser 21 Ebrill ar gyfer datganiadau tystion Cymreig penodol ei osod yn dilyn ymateb annigonol cynharach. Dylid ymdrin â phob ymateb Rheol 9 dilynol gan dystion Cymreig ar ffurf datganiadau atodol a/neu dylid cyhoeddi pob fersiwn o ddatganiadau a gyflwynir mewn ymateb i geisiadau Rheol 9. Nodir bod datganiadau atodol yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai tystion yn unig.[2]

---

[1] §6 o nodyn CTI ar gyfer y Trydydd Wrandawiad Rhagarweiniol yn Modiwl, 6 Ebrill 2023
[2] §12 Diweddariad Modiwl 1 i Gyfranogwyr Craidd

2. Mae CBFJ Cymru yn nodi y cysylltwyd â chyn Brif Weinidog y DU David Cameron a chyn Ganghellor y Trysorlys y DU, George Osborne, er mwyn cael gafael ar ddatganiadau Rheol 9 ar y pwnc o lymder. Byddai CBFJ Cymru yn ddiolchgar am gadarnhad bod cyn Brif Weinidog Cymru Carwyn Jones, ac aelodau perthnasol o'i gyn Gabinet, hefyd wedi cael eu cysylltu.

3. O ran datgelu, ar ddyddiad y cyflwyniadau yma, mae 'Relativity' yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â Modiwl 1 ar gyfer Cymru:

    a. Cymdeithas Llywodreathau Lleol Cymru (WLGA) – 26 o ddogfennau;
    b. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) – 12 o ddogfennau;
    c. Iechyd Cyhoeddus Cymru – 134 o ddogfennau.

4. Mae CBFJ Cymru yn nodi bod yr Ymchwiliad yn awgrymu y bydd datgeliad yn cael ei gynnyddu er mwyn caniatáu digon o amser i alluogi gwrandawiadau cyhoeddus i ddechrau ar 13 Mehefin 2023, ond eto nodir hefyd '*will continue to be made up to the date of the public hearing*'.[3] Mae CBFJ Cymru yn dymuno nodi ei bod yn gwbl afrealistig disgwyl i dimau bach o Gyfranogwyr Craidd anwladwriaethol, anarbenigol, (fel y rhai mewn profedigaeth) ystyried llawer iawn o wybodaeth ar fater y mae'r Ymchwiliad yn ei ddisgrifio fel '*extensive and complex*'[4] mewn yr wythnosau, neu diwrnodau o bosib, cyn derbyn tystiolaeth cynigion ar gyfer tystion (sydd wedi'i drefnu ar gyfer 15 Mai 2023 ar hyn o bryd). Pe bai datgeliad llawn yn digwydd ar ddyddiad y cyflwyniadau hyn, byddai hynny'n dal i adael llai na 5 wythnos i baratoi'n llawn i allu ymateb i gynigion tystion yr Ymchwiliad. Nid yw hwn yn amser digonol ar gyfer materion mor gymhleth. Serch hyn, mae Cyfranogwyr Craidd anwladwriaethol yn debygol o gael hyd yn oed llai o amser i baratoi. Bydd hyn yn cyfyngu ar y graddau y mae rhai Cyfranogwyr Craidd, a CBFJ Cymru, yn gallu cymryd rhan effeithiol yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus hwn. Mae CBFJ Cymru yn gofyn am eglurhad brys ar yr amserlen ar gyfer datgeliad Modiwl 1.

**<u>Tystion Arbenigol</u>**

5. Mae CBFJ Cymru yn nodi nad yw adroddiadau Bruce Mann, yr Athro David Alexander a Dr. Claas Kirchelle wedi eu derbyn eto. Fel sylwad cyffredinol, mae CBFJ Cymru wedi codi pryderion ynglŷn â'r graddau y mae'r adroddiadau arbenigol a dderbyniwyd gan yr Athro

[3] §18 Nodyn CTI ar gyfer y Trydydd Wrandawiad Rhagarweiniol yn Modiwl, 6 Ebrill 2023
[4] Ibid

David Heymann, yr Athro Syr Michael Marmot a'r Athro Clare Bambra yn ymdrin yn ddigonol â materion Modiwl 1 mewn perthynas â Chymru, (ac yn wir mewn perthynas â'r gwledydd datganoledig eraill). Ymhellach, rydym yn pryderu bod unrhyw ddadansoddiad cymharol rhwng y gwledydd datganoledig a Lloegr yn ddiffygiol i raddau helaeth. Mae CBFJ Cymru yn gofyn am eglurhad brys ynghylch sut y bydd yr Ymchwiliad yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd mewn perthynas â thystiolaeth arbenigol Modiwl 1 a'r cyd-destun Cymreig.

**Cynnig tystiolaeth, gweithdrefnau cyn Rheol 10 a Rheol 10**

6. Canlyniad anochel i ddatgeliad hwyr, neu datgeliad sydd wedi'i oedi, yw'r ffaith fod hi'n bosib y bydd Cyfranogwyr Craidd yn cael anhawster ymateb yn llawn i gynigion tystion ar y dyddiadau penodedig. Mae hyn wedyn yn debygol o arwain at gwestiynau ysgrifenedig hirach a manylach o dan Reol 10 a fydd yn sicr yn cynyddu'r baich gwaith ar dîm Cyfreithiol yr Ymchwiliad yn y dyddiau cyn i dyst roi tystiolaeth. Gall hyn hefyd gael effeith ar nifer y ceisiadau gan Gyfranogwyr Craidd i holi tystion.

**Tystion / datganiadau agor a chau**

7. Fe fydd CBFJ Cymru yn gwneud cyflwyniadau ar restr tystion Modiwl 1 arfaethedig yn unol ag amserlen yr Ymchwiliad, serch hyn, mae hi'n anodd gwneud sylwadau priodol ar restr tystion arfaethedig yn absenoldeb datgeliad.

8. Mae CBFJ Cymru yn bwriadu gwneud datganiad agoriadol a chau (ysgrifenedig a llafar).

**Craig Court**
**Harding Evans Solicitors**
**RLR**

**Bethan Harris**
**Kirsten Heaven**
**Laura Shepherd**
**Nia Gowman**
**Counsel**
**19 Ebrill 2023**